

**SIR GAERFYRDDIN**  
**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG (2018-2033)**  
**ARCHWILIAD**

---

**RHESTR O FATERION A CHWESTIYNAU**

**Sylwadau Pwysig:**

- Pwrpas yr archwiliad yw penderfynu a yw Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 (CDLI) yn gadarn yn unol â Llawlyfr y Cynllun Datblygu, Rhifyn 3, 2020 (Y Llawlyfr). **I fod yn gadarn, mae'n rhaid i'r Cynllun fodloni'r profion a nodir yn y Llawlyfr. Y rhain yw: (1) A yw'r cynllun yn cydweddu? (a yw'n amlwg bod y CDLI yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?), (2) A yw'r cynllun yn briodol? (a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?), ac (3) A fydd y cynllun yn cyflawni? (a yw'n debygol o fod yn effeithiol?).**
- Yn ogystal, mae'n rhaid bod y CDLI diwygiedig wedi'i baratoi yn unol â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol.
- Dylai cyfranogwyr ymateb yn unig i'r cwestiynau isod sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol ynghylch y Cynllun. Nodwch yn glir yn eich datganiad(au) y cwestiwn/cwestiynau rydych yn eu hateb.
- Dylai datganiadau pellach fod yn gymesur o ran hyd â nifer y cwestiynau sy'n cael eu hateb ac ni ddylent, yn gyfan gwbl, fod yn fwy na 3,000 o eiriau fesul mater.
- Rydym yn archwilio'r CDLI diwygiedig fel y'i cyflwynwyd gan y Cyngor Sir. Felly, ni fyddwn, ar hyn o bryd, yn ystyried gwerth datblygu safleoedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun.
- Cyhoeddodd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) rai cwestiynau rhagarweiniol am y CDLI diwygiedig a'r gwaith o'i baratoi yn ystod haf 2022. Mae atebion manwl y Cyngor i'r cwestiynau rhagarweiniol ar y wefan ac efallai y byddant o ddiddordeb i gyfranogwyr. Er eglurder, lle mae'r cwestiynau rhagarweiniol wedi'u dyblygu yn y ddogfen hon, ni fydd yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu ymateb ychwanegol, bydd cyfeiriad at yr ateb cynharach yn ddigonol.
  - Os oes gennych gwestiynau mewn perthynas â'r ddogfen hon neu unrhyw agwedd ar yr archwiliad, cysylltwch â Swyddog y Rhaglen, Corinne Sloley, drwy ffonio 01267 228624 neu drwy anfon neges e-bost at [LDPExamination@sirgar.gov.uk](mailto:LDPExamination@sirgar.gov.uk)

**Mater 1: Paratoi'r Cynllun a Fframwaith Strategol y CDLI diwygiedig**

*Y Mater - A yw'r CDLI diwygiedig yn cydymffurfio â'r gyfraith, a oes cyfiawnhad dros Strategaeth y Cynllun ac a yw'n debygol o fod yn effeithiol o ran sicrhau y gellir*

*diwallu anghenion datblygu Sir Gaerfyrddin mewn modd sy'n cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy?*

### *Paratoi'r Cynllun*

1. A yw'r CDLI diwygiedig wedi'i baratoi yn unol â gofynion:
  - a) Y Cytundeb Cyflawni cymeradwy, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?
  - b) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)? a
  - c) Deddf Cydraddoldeb (2010)?
2. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol cadarn ac a yw holl 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' y Cynllun a'r holl 'ddewisiadau rhesymol amgen' wedi'u nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso?
3. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cadarn? Lle mae 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' wedi'u nodi, a oes Asesiad Priodol digonol wedi'i gynnal?
4. A yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn ystyried cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch lefelau ffosffad yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd?
5. A yw'r Cynllun yn gyson â Chymru'r Dyfodol: y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?
6. A yw'r Cynllun wedi ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio?
7. A oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu amgylchiadau lleol wedi bod ers i'r CDLI diwygiedig gael ei roi ar adnau? Os oes, beth yw goblygiadau'r newidiadau hyn ar gyfer y Cynllun? A oes angen mynd i'r afael â hwy drwy baratoi tystiolaeth newydd a/neu newidiadau i'r Cynllun a beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn?

### *Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth*

8. A yw Gweledigaeth y Cynllun yn ddigon uchelgeisiol a phenodol yn lleol i ffurfio'r sail ar gyfer cynllunio hyd at 2033? Sut byddant yn cael eu darparu?
9. A yw amcanion y Cynllun yn rhai SMART ac yn gallu cyflawni'r Weledigaeth a nodwyd?
  - a) A ddylai amcanion strategol S02, SO4 a SO11 gynnwys cyfeiriad at dai?
10. A yw Strategaeth Ofodol y Cynllun yn cynrychioli dull priodol o gyflawni, rheoli a dosbarthu twf dros gyfnod y Cynllun?
  - a) Sut mae'r Strategaeth Ofodol wedi'i llunio ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
  - b) Beth yw prif elfennau'r Strategaeth Ofodol a sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd?
  - c) A yw'r Strategaeth yn cynrychioli dull cynaliadwy o ran cynllunio dros gyfnod y Cynllun? A yw'n cysylltu trafndiaeth, cyflogaeth a thwf preswyl mewn modd effeithiol?

- d) A yw'r Strategaeth Ofodol yn gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac yn mabwysiadu'r dull dilyniannol o ran rhyddhau tir fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru?
  - e) A yw'r Strategaeth Ofodol a'r lefelau twf disgwylidig yn gyson â rhai'r awdurdodau cyfagos? Beth yw'r prif faterion trawsffiniol a sut yr aethpwyd i'r afael â'r rhain?
  - f) A fydd y Strategaeth Ofodol yn cefnogi ardaloedd twf cenedlaethol a'r rhanbarth ehangach?
  - g) Beth yw pwrpas Polisi SP13? A yw'n darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad mewn cymunedau gwledig?
11. A yw lefel y twf sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi SP1 yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
- a) Beth yw pwrpas Polisi SG1? A yw gofynion y safleoedd dyranedig a restrir yn y polisi wedi'u mynegi'n glir?
  - b) A yw cynnwys safleoedd wrth gefn, sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi SG2, yn briodol ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
12. Sut mae'r Hierarchaeth Aneddiadau a Chlystyrau a gynhwysir ym Mholisi SP3 wedi'u diffinio? A ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
- a) Beth yw diben yr Hierarchaeth Aneddiadau? A fydd yn arwain datblygiad newydd yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, ac a yw'n glir pa fathau a faint o ddatblygu, ac eithrio tai, fydd yn briodol ym mhob haen o'r hierarchaeth?
13. A yw gofynion Polisi SD1 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol? A yw ffiniau diffiniedig yr aneddiadau yn ddigon hyblyg i ganiatáu i lefel y twf a ragwelir gael ei chyflawni?
14. A yw'r dull o ddewis y safle yn ddigon clir a thryloyw, ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
- a) A yw'r safleoedd dyranedig yn seiliedig ar fethodoleg asesu safle gadarn sy'n ystyried yr holl gyfyngiadau posibl?
  - b) A yw'r holl ofynion seilwaith wedi'u hystyried i sicrhau bod safleoedd dynodedig yn cael eu cyflawni'n amserol?
  - c) A yw'r holl ddyraniadau safle yn cyd-fynd â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol sy'n ymwneud â Pherygl Llifogydd?
15. A yw'r tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) wedi'i ystyried trwy gydol y broses o lunio'r cynllun? Yn enwedig mewn perthynas â pharatoi'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA), y Strategaeth Ofodol a'r dyraniadau safle?
- a) A yw'r Cynllun yn cynnig datblygu'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas? Os felly, faint o dir ac ym mhle, ac a yw'r dull hwn yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy?
16. Sut y bydd y Cynllun yn cymhwyso'r egwyddorion o ran creu lleoedd cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi SP12?
- a) A yw gofynion Polisi PSD1 a PSD3 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
  - b) A yw gofynion Polisi PSD4 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
17. A yw gofynion Polisi SP2 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?

18. A yw Polisi INF1 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer sicrhau rhwymedigaethau cynllunio? Sut y bydd blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael eu rheoli?
19. A yw Polisi SP8 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac a yw'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?
  - a) A yw canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn caniatáu twf yn y ddarpariaeth o ran datblygu tai a chyflogaeth sy'n fwy na'r lefelau a gynhwysir yn y Cynllun?
  - b) A yw gofynion Polisi WL1 yn cael eu mynegi'n glir ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol? A ddylai darpariaethau Polisi PSD9 mewn perthynas â'r Gymraeg gael eu cynnwys yn y polisi?
20. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n darparu cyd-destun ar gyfer rheoli lefelau ffosffad yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd? A yw gofynion Polisi INF4 yn cael eu mynegi'n glir?

## **Mater 2: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Tai a Seilwaith Cymunedol**

*Y Mater - A yw'r ddarpariaeth a'r dosbarthiad tai yn gadarn, wedi'u hategu gan dystiolaeth gadarn a chredadwy ac a ydynt yn gyson â'r polisi cenedlaethol? A fyddant yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun?*

### *Darpariaeth o ran Tai*

1. A yw'r ffigur gofyniad tai a nodwyd ym Mholisi SP4 yn briodol?
  - a) Sut mae'r ffigur gofyniad o 8,822 wedi'i lunio? A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
  - b) Wrth nodi'r ffigur gofyniad, a oes sylw digonol wedi'i roi i amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o ran aelwydydd a phoblogaeth?
  - c) A oes senarios twf tai amgen wedi cael eu hystyried? Os felly, pam maent wedi cael eu diystyru, a pham mae'r opsiwn a ffeirir wedi'i ddewis?
  - d) A yw'r ffigur gofyniad wedi'i lywio gan asesiad cadarn o'r prif ddylanwadau lleol ar y galw am dai yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys maint ffurfio aelwydydd, lefelau mudo, a chyfraddau swyddi gwag?
2. A yw'r ffigur cyflenwi tir tai a nodwyd ym Mholisi SP4 yn briodol?
  - a) Sut mae'r ffigur cyflenwi o 9,704 wedi cael ei lunio? A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
  - b) Beth yw cyfansoddiad y cyflenwad tai? A ddylai hyn gael ei amlinellu yng nghyfiawnhad rhesymegol Polisi SP4 a, lle bo'n briodol, a oes gan yr holl gydrannau yr un dyddiad sylfaen?
  - c) A yw'r nifer amcangyfrifedig o unedau o safleoedd ymrwymedig a hapsafleoedd yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn? A oes lwfans peidio â chyflawni wedi'i ddiffinio a'i gymhwyso?
  - d) Faint o anheddau fydd yn cael eu hadeiladu yn aneddiadau Haen 4? A yw'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
  - e) A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau tai a'r safleoedd tai ymrwymedig yn y Cynllun?

- f) Sut mae'r lwfans hyblygrwydd o 10% wedi'i ddiffinio? A yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
- 3. A yw'r gyfradd gyflawni yn y taflwybr tai yn realistig, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy ac yn gyson â gofynion y Llawlyfr?
- 4. A fydd y Cynllun yn cyflawni'r gofyniad tai?
  - a) A yw'r dyraniadau safle ar gael ac a oes modd eu cyflawni o fewn yr amserlenni a ragwelir? A yw'r dyraniadau'n cael eu cefnogi gan fethodoleg asesu safle gadarn a chynhwysfawr, yn rhydd o gyfyngiadau datblygu sylweddol ac yn dangos eu bod yn economaidd hyfyw?
  - b) A ddylid dyrannu safleoedd ymrwymedig?
  - c) A yw strategaeth dai'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid?

#### *Dosbarthu a Datblygu Tai*

- 5. A yw dosbarthiad gofodol y datblygiad tai newydd yn gynaliadwy ac yn gydlynol?
  - a) Sut y bydd datblygu hapsafleoedd o fewn pob haen o'r hierarchaeth aneddiadau yn cael ei asesu a'i reoli? A ddylid helaethu cyfiawnhad rhesymegol Polisi HOM2 er mwyn esbonio'r dull o asesu cynigion yn unol â'r Cynllun?
  - b) A yw dosbarthiad gofodol y dyraniadau tai a'r cyfleoedd hapsafleoedd yn gyson â'r hierarchaeth aneddiadau a nodwyd? A yw'r tablau yn Atodiad 7 yn gywir?
- 6. A yw gofynion Polisi HOM3, yn enwedig y cap o 10%, wedi'u mynegi'n glir, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
- 7. A yw'r Polisi HOM4 yn gyson â'r gofynion polisi cenedlaethol?
- 8. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n ceisio rheoli lefelau dwysedd ar bob safle a gynigir ar gyfer datblygiad preswyl?
- 9. A yw'r dull o ddarparu tai arbenigol 'y tu allan i'r terfynau datblygu diffiniedig a heb fod yn ffinio â hwy' ym Mholisi HOM6 yn cael ei fynegi'n glir ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
- 10. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n ceisio cyfyngu ar y defnydd o bob tŷ newydd i fod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa?

#### *Seilwaith Cymunedol*

- 11. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n ceisio amddiffyn y cyfleusterau cymunedol presennol?
- 12. A yw gofynion Polisi INF2 yn briodol ac yn cael eu mynegi'n glir?

### **Mater 3: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Tai Fforddiadwy a Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr**

*Y Mater - A yw'r gofynion ar gyfer tai fforddiadwy a llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy ac a ydynt yn gyson â'r polisi cenedlaethol? A fyddant yn cael eu bodloni yn ystod cyfnod y Cynllun?*

### *Tai Fforddiadwy*

1. A yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar gyfer Sir Gaerfyrddin (LHMA) yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A yw'r canfyddiadau'n ddigonol i lywio strategaeth dai fforddiadwy y Cynllun?
  - a) Beth yw maint yr angen am dai sydd wedi cael ei nodi yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol?
  - b) Pa gymysgedd deiliadaeth (e.e. rhentu canolradd neu gymdeithasol) a'r math o annedd (nifer yr ystafelloedd gwely) y mae eu hangen?
  - c) A fydd y targed tai fforddiadwy o 1,900 o anheddau yn diwallu'r angen am dai lleol. Os na fydd, pa fecanweithiau eraill sydd ar gael?
2. A yw'r Asesiad Hyfywedd Ariannol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?
  - a) A yw methodoleg yr astudiaeth yn ystyried amrywiadau o ran costau adeiladu, rhwymedigaethau cynllunio, systemau draenio trefol cynaliadwy, mesurau diogelwch tân a gofynion cysylltiedig eraill?
3. A yw'r targed tai fforddiadwy o 1,900 o anheddau ym Mholisi SP5 yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac wedi'i fynegi'n glir yn y polisi?
4. Sut mae'r trothwy a'r targedau o ran tai fforddiadwy ym Mholisi AHOM1 wedi'u llunio?
  - a) A yw'r trothwy o 10 uned neu fwy ar gyfer cyfraniadau ar safle yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
  - b) A ellir cyfiawnhau'r gofyniad am 25% o dai fforddiadwy ar safleoedd sy'n cynnwys 101 o anheddau ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
  - c) Sut y bydd y targed tai fforddiadwy yn cael ei gyflawni?
  - e) A ddylai materion mewn perthynas â thrafodaethau, safleoedd cyfagos/cysylltiedig, bytholrwydd a symiau cymudedig gael eu hadleoli i'r cyfiawnhad rhesymegol?
5. Sut y bydd cyfraniadau symiau cymudedig neu oddi ar y safle ar gyfer tai fforddiadwy yn cael eu sicrhau a'u rheoli? Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod lefel y cyfraniadau a geisir yn briodol?
6. A yw dosbarthiad gofodol tai fforddiadwy yn gadarn ac a yw'n adlewyrchu'n ddigonol yr anghenion lleol?
7. A yw gofynion Polisi AHOM2 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?

### *Llety Sipsiwn a Theithwyr*

8. A yw'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy ac a yw'n ddigonol i lywio strategaeth y Cynllun?
  - a) Beth yw statws yr Asesiad diweddaraf o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr?
  - b) Faint o leiniau Sipsiwn a Theithwyr parhaol newydd sydd eu hangen dros gyfnod y Cynllun? Sut y bydd yr angen hwn yn cael ei ddiwallu?

9. A yw gofynion Polisi SP10 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
  - a) Faint o leiniau newydd fydd yn cael eu darparu ar y Tir ar safleoedd Penyfan, Trostre, Llanelli a Phen-y-bryn (Estyniad) y Bynea, Llanelli?
10. A yw Polisi GTP1 yn darparu fframwaith clir a chyson o ran asesu cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol, ac a yw'n gyson â'r polisi cenedlaethol?
11. A yw'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'u dyrannu o dan Bolisi SP10 ar dir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli a Phen-y-bryn (Estyniad) y Bynea, Llanelli ac yn gallu cael eu cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun?

Safleoedd Dyranedig	PrC2/GT1 – Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli PrC/GT2 - Pen-y-bryn (Estyniad), y Bynea, Llanelli
---------------------	---

- a) Beth yw defnydd presennol y dyraniadau?
- b) Beth yw'r defnydd a fwriedir ar gyfer y dyraniadau?
- c) Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol o ran datblygu o fewn cyfnod y Cynllun?
- d) A yw nifer y lleiniau a gynigir yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y Cynllun?
- e) Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer darparu'r safleoedd?
- f) A yw'r dyraniadau'n hanfodol er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun?

#### **Mater 4: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Cyflogaeth, yr Economi Ymwelwyr a Seilwaith**

*Y Mater - A yw'r strategaeth economaidd yn gydlynol ac yn seiliedig ar broses baratoi glir a chadarn? A fydd yn mynd i'r afael â'r Materion a'r Amcanion Strategol yn effeithiol ac yn effeithlon? A yw'r polisiâu'n realistig ac yn briodol yng ngoleuni dewisiadau amgen perthnasol ac a ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?*

##### *Cyflogaeth*

1. A yw'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A yw'r canfyddiadau'n ddigonol i lywio strategaeth economaidd y Cynllun?
2. Beth yw'r prif ysgogwyr ar gyfer newid ym marchnad gyflogaeth Sir Gaerfyrddin? Sut mae'r Cynllun wedi mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn?
3. Faint o swyddi newydd yr amcangyfrifir eu bod yn cael eu creu o ganlyniad i strategaeth economaidd y Cynllun? Ym mha sectorau?
4. Beth yw'r berthynas gyflogaeth drawsffiniol? Pa gyfran o'r swyddi presennol yn Sir Gaerfyrddin lle mae gweithwyr o'r tu allan i'r Sir wedi'u penodi ar eu cyfer?

5. Faint o drigolion Sir Gaerfyrddin sy'n teithio i'r gwaith y tu allan i'r Sir? Sut y mae'r symudiad hwn wedi cael ei ystyried yn ei ragolygon cyflogaeth?
6. A yw'r safleoedd a ddyrennir o dan Bolisi SP6 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A ddylent fod yn destun polisiâu penodol sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer datblygu?
7. A yw lefel y ddarpariaeth tir cyflogaeth a nodwyd ym Mholisi SP7 yn briodol?
  - a) Sut mae'r ffigur cyffredinol o 71.21 hectar wedi'i lunio? A yw lefel y ddarpariaeth tir cyflogaeth yn cael ei chyfiawnhau a'i chefnogi'n llawn gan dystiolaeth gadarn a chredadwy?
  - b) A yw Polisi EME 3 yn gwahaniaethu'n glir rhwng safleoedd dynodedig ac ymrwymedig? A yw'r safleoedd yn realistig ac yn economaidd hyfyw? A ydynt yn rhydd o gyfyngiadau sylweddol ac a oes modd eu cyflawni dros gyfnod y Cynllun?
  - c) A yw hierarchaeth safleoedd cyflogaeth yn briodol ac yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?
  - d) Beth yw strategaeth y Cynllun ar gyfer dosbarthiad y tir cyflogaeth? A yw'n ystyried gofynion Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol a mentrau adfywio eraill?
  - e) A fwriedir i'r holl safleoedd a ddyrennir ym Mholisiâu SP7 ac EME3 gael eu datblygu at ddibenion B1, B2 a B8 yn unig? Os na, a ddylid diwygio'r polisiâu i wneud yn glir y defnydd(iau) arfaethedig/posibl eraill?
  - f) A ddylid cynnwys manylion y dyraniadau cyflogaeth anstrategol yn y Cynllun?
8. A yw Polisi EME1 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth?
9. Beth yw pwrpas Polisi EME2? A yw'n berthnasol i ddatblygiadau mewn ardaloedd gwledig a threfol?
10. A yw'r dull a ddefnyddir ym Mholisi EME4 o ran datblygu cyflogaeth ar safleoedd na ddyrennir o fewn terfynau datblygu a'r tu allan iddynt, wedi'i fynegi'n glir, yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid, ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?

*Yr Economi Ymwelwyr a Datblygiad sy'n Gysylltiedig â Marchogaeth*

11. Sut y bydd y Cynllun yn cynnal ac yn gwella cynnig twristiaeth, diwylliant a hamdden y Sir?
12. A fydd Polisi VE1 yn darparu mecanwaith priodol ar gyfer rheoli atyniadau a chyfleusterau newydd i ymwelwyr yn y Sir? A yw gofynion y polisi'n cael eu mynegi'n glir?
13. A yw Polisiâu VE2, VE3 a VE4 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli llety ymwelwyr yn y Sir?
14. A ddylid dynodi'r *Gateway Resort* a Chlwb Golff y Garnant yn gyfleusterau twristiaeth?
15. A yw Polisi RD5 yn darparu fframwaith priodol o ran asesu cynigion ar gyfer cyfleusterau marchogaeth newydd?



## *Seilwaith*

16. A yw gofynion Polisi INF3 ar gyfer darparu Band Eang yn briodol ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?

## **Mater 5: Arferion Iach – Yr Amgylchedd Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol**

*Y Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol sy'n gadarn, yn gyfiawn ac yn gyson â gofynion y polisi cenedlaethol?*

### *Yr Amgylchedd Naturiol*

1. A yw Polisi SP14 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol? A yw'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
2. A yw gofynion Polisiâu NE2 yn glir ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
3. Beth yw pwrpas Polisi NE4? A yw'n gyson â gofynion y polisi cenedlaethol a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)?
4. A ddylid diwygio ffin ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr ym Mholisi NE4 er mwyn cynnwys rhan o'r tir oddi ar Heol Brown, Tŷ-croes, (cyf AS2/159/002)?
5. A yw'r fframwaith a ddarperir gan Polisiâu NE5, NE6 a NE7 yn rhoi dulliau priodol ar gyfer rheoli datblygiad mewn lleoliadau arfordirol?

### *Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol*

6. A yw Polisi SP15 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer amddiffyn a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol?
7. A yw Polisi BHE1 yn unigryw yn lleol neu a yw'n adlewyrchu gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?
8. A yw Polisi BHE2 yn darparu dulliau priodol ar gyfer rheoli effaith datblygiadau ar dirwedd a nodweddion gweledol y Sir?
9. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n dynodi ardaloedd tirwedd arbennig?

### *Darparu Mannau yn yr Awyr Agored*

10. A yw gofynion Polisiâu PSD7 a PSD8 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A yw'r polisiâu'n cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
11. A ddylai tir yng Nglanaman (Cyf AS2/064/005 ac AS2/064/006) gael ei nodi fel man cyhoeddus a/neu gymunedol?

## **Mater 6: Cysylltiadau Cryf – Newid yn yr Hinsawdd, Ynni Adnewyddadwy, Trafnidiaeth, Mwynau a Gwastraff**

*Y Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a datblygu carbon isel ynghyd â thrafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd sy'n gadarn, yn gyfiawn ac yn gyson â gofynion y polisi cenedlaethol?*

*Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Adnewyddadwy*

1. A yw Polisi SP16 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer sicrhau bod cynigion datblygu yn ymateb i'r hyn sy'n achosi newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau ac yn lleihau'r achosion a'r effeithiau hyn?
2. A yw'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth gredadwy ac yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?
3. A yw'r Cynllun yn darparu cydbwysedd priodol rhwng gwireddu potensial yr ardal ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a diogelu tirwedd ac amgylchedd naturiol a hanesyddol y Sir?
4. A yw Polisi CCH1 yn darparu fframwaith polisi priodol ynghylch gwireddu potensial Sir Gaerfyrddin ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy o fewn ardal a gafodd ei hasesu ymlaen llaw ac ardaloedd chwilio lleol?
  - a) A yw'r polisi'n gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol? A ddylid diwygio ei gyfiawnhad rhesymegol er mwyn cynnwys esboniad ynghylch gofynion Cymru'r Dyfodol?
  - b) A yw'r gofynion mewn perthynas â 'ffermydd gwynt ar raddfa fawr' yn angenrheidiol?
  - c) A ddylai'r ardaloedd chwilio lleol ar gyfer ynni'r haul gael eu rhestru yn y polisi?
  - d) Sut yr asesir yr effaith o ddatblygu ar Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a phriddoedd â llawer o garbon mewn ardaloedd chwilio lleol?
5. A yw'r targed ar gyfer cynhyrchu ynni sydd wedi'i gynnwys yn Nhablau 9 a 10 yn briodol neu a ddylai fod yn fwy uchelgeisiol?
6. A yw Polisi CCH2 yn darparu dull priodol ar gyfer rheoli datblygu ynni adnewyddadwy y tu allan i ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ac ardaloedd chwilio lleol? A sut fydd effaith datblygu ar Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a phriddoedd â llawer o garbon yn cael ei hasesu?
7. A yw gofynion CCH3 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac a ydynt yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?
8. A yw Polisi CCH4 yn angenrheidiol ac a yw'n darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer rheoli ansawdd dŵr ac amddiffyn adnoddau dŵr yn y Sir?
9. A yw gofynion Polisi CCH5 yn wahanol yn lleol neu a ydynt yn efelychu gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?
10. A yw Polisiâu CCH6 a CCH7 yn darparu mecanwaith priodol ar gyfer rheoli ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn datblygiadau newydd a fforestydd, coetiroedd a phlannu Coed? A yw gofynion y polisiâu'n cael eu mynegi'n glir?

### *Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd*

11. A yw Polisi SP17 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer integreiddio a chydlynu mesurau trafndiaeth cynaliadwy a chynllunio defnydd tir? A yw gofynion Polisi TRA2 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?
  - a) Sut y bydd darparu lleoedd parcio yn cael ei reoli?

### *Mwynau a Gwastraff*

12. A yw Polisiâu SP18, MR1, MR2 ac MR3 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli adnoddau mwynau yn y Sir?
13. A ddylid diwygio Polisi MR2 i gynnwys rhestr o'r holl safleoedd mwynau sydd â chaniatâd cynllunio presennol a'u clustogfeydd priodol?
14. A ddylai Atodiad 4 – Diwygio Safleoedd Mwynau Gweithredol a Segur i egluro'r tebygolrwydd y bydd safleoedd yn cael eu hailactifadu a'u gweithio yn ystod cyfnod y Cynllun?
15. A yw Polisi SP19 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy? Sut a ble y bydd tir yn cael ei ddyrannu ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff?
16. A ddylai Polisi PSD5 gyfeirio at 'gynllun rheoli deunyddiau naturiol'?

**Mater 7: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Dyraniadau Safle (Clwstr 1 – Caerfyrddin)**

*Y Mater - A yw'r safleoedd dyranedig yn gadarn ac yn gallu darparu datblygiad preswyl, cymunedol a masnachol newydd dros gyfnod y Cynllun?*

Safleoedd Dyranedig	PrC1/h4 – Tir oddi ar Barc y Delyn PrC1/MU1 – Gorllewin Caerfyrddin PrC1/MU2 – Pibwr-lwyd SeC1/h1 – Lôn Pisgwydd SeC1/h4 – Cae Canfas, Heol Llanelli SuV1/h1 – Gerllaw Fron Heulog SuV4/h1 – Tir ar fferm Troed Rhiw SuV12/h1 – Gerllaw Gwyn Villa SuV17/h1 – Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf SuV18/h1 - Tir oddi ar yr A40, Pontargoth SuV20/h1 – Tir ger Fferm Llwynhenri
---------------------	---

- Pa ddefnydd a wneir o'r safle dyranedig ar hyn o bryd?
- Beth yw'r defnydd a fwriedir ar gyfer y safle dyranedig?
- Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol o ran datblygu o fewn cyfnod y Cynllun?
- Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, ac o ystyried yr angen i ddarparu tai fforddiadwy, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
- A yw nifer yr unedau preswyl a gynigir yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y cynllun?
- Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer darparu'r safle?
- A yw dyraniad y safle yn hanfodol er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun?

**Mater 8: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Dyraniadau Safle (Clwstr 2 – Llanelli)**

*Y Mater - A yw'r safleoedd dyranedig yn gadarn ac yn gallu darparu datblygiad preswyl, cymunedol a masnachol newydd dros gyfnod y Cynllun?*

Safleoedd Dyranedig	PrC2/h1 – Beech Grove, y Pwll PrC2/h4 – Doc y Gogledd PrC2/h10 – Tir ger The Dell, Ffwrnes PrC2/h16 – Ynys Las, Llwynhendy PrC2/h20 – Harddfan PrC2/h22 - Cwm y Nant, Dafen PrC2/h23 – Porth Dwyreiniol Dafen SeC6/h2 – Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt SeC7/h1 – Fferm Bocs SeC7/h3 - Golwg yr Afon SeC8/h2 - Golwg yr Afon
---------------------	---

	SeC8/h3 - Golwg Gwendraeth SuV23/h1 – Clos y Parc SuV23/h2 – Ger Little Croft
--	---

- Pa ddefnydd a wneir o'r safle dyranedig ar hyn o bryd?
- Beth yw'r defnydd a fwriedir ar gyfer y safle dyranedig?
- Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol o ran datblygu o fewn cyfnod y Cynllun?
- Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, ac o ystyried yr angen i ddarparu tai fforddiadwy, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
- A yw nifer yr unedau preswyl a gynnigir yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y cynllun?
- Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer darparu'r safle?
- A yw dyraniad y safle yn hanfodol er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun?

**Mater 9: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Dyraniadau Safle (Clwstr 3 – Rhydaman gan gynnwys y Betws a Phen-y-banc)**

*Y Mater - A yw'r safleoedd dyranedig yn gadarn ac yn gallu darparu datblygiad preswyl, cymunedol a masnachol newydd dros gyfnod y Cynllun?*

Safleoedd Dyranedig	PrC3/h4 – Fferm Tirychen PrC3/h6 – Tir sy'n ffinio â Maes Ifan, Ffordd Maescwarrau PrC3/h19 – Tir oddi ar Lys y Nant PrC3/h22 – Gerllaw Pant-y-Blodau PrC3/h33 – Llys Dolgader PrC3/h36 – Glofa'r Betws PrC3/h37 – Clos Felingoed PrC3/E1 – Dwyrain Cross Hands PrC3/E2 – Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands PrC3/E2 (i) – Tir i'r dwyrain o Calsonic – 3253 PrC3/E2(ii) – Tir i'r Gorllewin o Gestamp Tallen – 3253 PrC3/E2(iii) – Tir ar Heol Aur - 3253 PrC3/E3(i) – Heol Stanllyd (Gorllewin) PrC3/MU1 - Gwaith Brics Emlyn
---------------------	---

- Pa ddefnydd a wneir o'r safle dyranedig ar hyn o bryd?
- Beth yw'r defnydd a fwriedir ar gyfer y safle dyranedig?
- Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol o ran datblygu o fewn cyfnod y Cynllun?
- Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, ac o ystyried yr angen i ddarparu tai fforddiadwy, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
- A yw nifer yr unedau preswyl a gynnigir yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y cynllun?

- f) Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer darparu'r safle?
- g) A yw dyraniad y safle yn hanfodol er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun?

**Mater 10: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Dyraniadau Safle (Clwstr 4 – Castellnewydd Emlyn) a (Clwstr 5 – Llanymddyfri)**

*Y Mater - A yw'r safleoedd dyranedig yn gadarn ac yn gallu darparu datblygiad preswyl, cymunedol a masnachol newydd dros gyfnod y Cynllun?*

Safleoedd Dyranedig	SeC12/h1 – Trem y Ddôl SeC12/h3 – Tir y tu cefn i Dolcoed Sec13/h1 – Gerllaw Y Neuadd SeC14/h1 – Garej Blossom SeC14/h2 – Tir gerllaw Maescader SuV38/h1 – Maes y Bryn SuV39/h1 – Gerllaw Yr Hendre SuV41/h2 – Cilgwyn Bach SeC16/h1 – Chwarter Gogleddol Llandeilo SeC17/h1 – Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog
---------------------	---

- a) Pa ddefnydd a wneir o'r safle dyranedig ar hyn o bryd?
- b) Beth yw'r defnydd a fwriedir ar gyfer y safle dyranedig?
- c) Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol o ran datblygu o fewn cyfnod y Cynllun?
- d) Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, ac o ystyried yr angen i ddarparu tai fforddiadwy, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
- e) A yw nifer yr unedau preswyl a gynigir yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y cynllun?
- f) Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer darparu'r safle?
- g) A yw dyraniad y safle yn hanfodol er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun?

**Mater 11: Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Dyraniadau Safle (Clwstr 6 – Sanclêr a Phwll-trap)**

*Y Mater - A yw'r safleoedd dyranedig yn gadarn ac yn gallu darparu datblygiad preswyl, cymunedol a masnachol newydd dros gyfnod y Cynllun?*

Safleoedd Dyranedig	SeC19/h1 – Tir yn Park View, Trefechan SeC19/h2 – Tir yn Hufenfa Hendy-gwyn ar Daf SeC20/MU1 – Parc Gwyliau Talacharn SuV61/h1 – Tir ar Fferm Nieuport
---------------------	---

- a) Pa ddefnydd a wneir o'r safle dyranedig ar hyn o bryd?
- b) Beth yw'r defnydd a fwriedir ar gyfer y safle dyranedig?
- c) Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol o ran datblygu o fewn cyfnod y Cynllun?
- d) Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, ac o ystyried yr angen i ddarparu tai fforddiadwy, a yw'r dyraniad yn hyfyw yn economaidd?
- e) A yw nifer yr unedau preswyl a gynigir yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y cynllun?
- f) Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer darparu'r safle?
- g) A yw dyraniad y safle yn hanfodol er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun?

NG ac IS  
08/2024